"Profwch bob peth; deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR

YMOFYNYDD:

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD.] IONAWR, 1890. [RHIF 25.

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Duwinyddiaeth y Dyfodol	1
I ba le	4
Nodiadau ar Lyfr yr Actau	5
Y Chwyldroad yn Brazil	8
Y Troad allan yn y Llwyn	10
Diffygion yr Ysgol Sul	11
Er Gwasanaeth ein Hysgolion Sul yn Sir Aberteifi	12
Nodynau Gwasgarog	14
Manion a Hanesion	19
Marwgofion	20

Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:

ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, COMMERCIAL PLACE.

AT EIN DERBYNWYR.

TALIADAU:—R.J., Cwmtaf; W.J., Pitcott Cottage; E.P., Glyncorrwg; D.T., Llantwit Major; J.J., Quakers' Yard; J.D., Swansea; J.J., Tonypandy; T.J., New Court; W.D., Cribin; R.G., Cwmafon; Miss J., Cellan; D.O.E., Merthyr; D.R., Wattstown; B.B., Treherbert; D.H., Pontsticyll; P.P., Blaentrafle; J.D., Capelygroes; Proff. E., Caermarthen; D.T., Ochryrhos; W.D.J., London.

☞ Anfoner pob gohebiaeth at y Golygydd,

J. HATHREN DAVIES,

CEFNCOED,

NR. MERTHYR TYDVIL.

☞ Tyner pob *Post Office Order* ar y *Cefn* Post Office, ac yn enw J. H. Davies, Editor, &c. Cofier, fodd bynag, fod y *Postal Orders* weithiau yn rhatach nâ'r *Post Office Orders*. Fe ddylid bob amser defnyddio *Postal Orders* yn lle *stamps* mor bell ag y gellir.

TELERAU:—Pris 3c., trwy'r post, 3½c.; ar dri rhifyn a throsodd telir y cludiad.

THE GRAMMAR SCHOOL, LLANYBYTHER.

HEAD MASTER:—REV. D. EVANS.

For further particulars, apply to Rev. D. Evans, Llanwnen, Llanybyther, R.S.O.

GWEITHIAU CHANNING.

GELLIR cael yr argraffiad rhad o'r uchod, yn rhad trwy y *post*, am 9c. yr un oddiwrth D. J. JONES,

MOUNT PLEASANT GARDEN, ABERDARE.

LLAWLYFR YR UNDODWR, PRIS 6CH.

Anfoner at D. Evans, Llanwnen, Llanybyther.

YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] IONAWR, 1890. [RHIF 25.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

DUWINYDDIAETH Y DYFODOL.

BYDD i dduwinyddiaeth y dyfodol aros a manylu ar rywbeth heblaw pum' pwnc Calfiniaeth, ac yr wyf wedi meddwl y byddai yn dda cymmeryd dan ystyriaeth wrthranau yr hen gyfundraeth hon gyda golwg ar bum' pwnc y dduwinyddiaeth ddyfodol. Gadewch i ni ymdrechu gweled pa beth fyddant.

TADOLDEB DUW.

Credwn mai y pwynt cyntaf o athrawiaeth yn nuwinyddiaeth y dyfodol fydd Tadoldeb Duw. Hanfod hon yw cariad y Tad at ei blant; ond y mae cariad tadol yn gariad doeth, yn gariad cadarn a phur, yr hwn sydd yn ceisio daioni goreu y plentyn, Felly, y mae y meddyliddrych hwn o dadoldeb yn cynnwys sancteiddrwydd, gwirioneddolrwydd, a chyfiawnder Duw; mewn gair, yr holl briodoleddau Dwyfol.

Nid yw cyfiawnder Duw fel tad, megys yn yr hen dduwinyddiaeth, yn gyfiawnder tansoddol, yn yr hwn nid oes dim ystyriaeth a chyflead at ganlyniadau. Nid yw cyfiawnder Duw ddim ond ffurf arall o drugaredd; y gyfraith ddoeth ydyw sydd yn dwyn daioni i'r greadigaeth a bendith i bob creadur.

Y mae yr Iesu, yn mhob man, wedi gosod pwys mawr neu wedi pwysleisio y gwirionedd hwn, fod Duw yn Dad. Cawn ei fod yn tryddedu yr Efengylau ac yn lliwio ei addysgiadau. Cawn ef yn barod yn y bregeth ar y mynydd, yr hon sydd yn dywedyd wrthym ein bod i adael ein goleuni i ddysgleirio, nid i ogoneddu ein hunain, ond i ogoneddu ein Tad yn y nefoedd; ein bod ni i garu ein gelynion, fel y

byddom debyg i'n Tad nefol, yr Hwn sydd yn caru ei elynion ac yn peru i'w haul godi ar y drwg a'r da.

Dywed yr Iesu wrthym, pan yn gweddio, ein bod i weddio ar ein Tad—nid ar allu anfeidrol, neu gyfiawnder ansoddol, neu ryw benadur pell draw. Yr ydym i edrych i fyny oddiwrth ein pechodau a'n galar a'n gwendid—nid at gyfraith annghymmodlawn, ond at dynerwch anfeidrol a dihyspydd; ac yr ydym i faddeu i ereill o herwydd fod ein Tad o'r nefoedd yn maddeu i ni. Nid ydym i fod yn bryderus, gan gofio fod ein Tad nefol yn porthi adar bach yr awyr. Yr ydym i weddio, yn ymddiriedol y bydd i'n Tad nefol roddi pethau da i'r rhai sydd yn ceisio ganddo. Felly, y mae y meddylddrych o'r Tadoldeb Dwyfol yn tryddedu ac yn llanw addysgiadau boreuaf a diweddaraf yr Iesu.

BRAWDOLDEB DYN.

Yr ail bwynt o athrawiaeth yn y dduwinyddiaeth newydd, feddyliaf fi, fydd brawdoldeb dyn. Os mai plant yr un tad yw pawb dynion, yna brodyr ydynt oll. Os yw Duw yn eu caru oll, y mae yn rhwym o fod ynddynt oll rywbeth sydd yn garadwy. Os mai Efe sydd wedi eu dwyn yma drwy ei Ragluniaeth, y maent yma er rhyw amcan pwysig. Gan hyny, rhaid yw i ni omedd galw un dyn yn gyffredin neu aflan, edrych i lawr gyda diystyrwch ar neb, dirmygu neb, ond parchu yn mhob dyn y daioni hanfodol y mae Duw wedi ei osod yn yr enaid, yr hyn, yn y diwedd, y mae yn rhwym o olygu iddo gael ei ddadblygu i berffeithrwydd.

Fel oddiwrth y meddylddrych o Dadoldeb Duw y daw pob duwiolfrydedd, felly oddiwrth frawdoldeb dyn y deillia pob cariad a chyflawniadau cariadlawn. Y mae yr athrawiaeth hon eisoes yn achos neu ffynnonell cenadaeth, dyngarwch, diwygiadau, a phob ymdrech i geisio a chadw y sawl sydd wedi eu hamgylchynu gan ddrwg. Y mae yn arwain dynion i borthi y newynog, dilladu y noeth, addysgu a goleuo y dall, lliniaru penysgafnder y gwallgofus, taenu gwybodaeth, a phregethu y newydd da o lawenydd mawr i'r tlawd. Bydd yr athrawiaeth hon o frawdoldeb dyn, pan greder hi yn gyflawn a thrwyadl, yn achos o'r moesau puraf a'r cyflawniadau cariadlawn mwyaf ragorol.

ARWEINIAD YR IESU.

Crist yw ein harweinydd, ac yn ei ganlyn Ef canlynwn ei feddwl, ei galon, ei yspryd—yspryd ei eiriau, yspryd ei fywyd. Os ydym yn gwybod meddwl Crist mewn perthynas i unrhyw wirionedd neu ddyledswydd, y mae genym yr hyn sydd foddhaol, argyhoeddiadol, sylweddol. Rhaid yw mai Efe ei Hunan yw y ffynnonell benaf mewn perthynas i'w Efengyl. Gall yr Eglwys fod yn rhanedig yn ei chrediniaeth, ond os yw meddwl Crist genym, mae hyny yu ddigon. Gallwn orphwys ar hyn, a bod yn berffaith foddlawn.

Y deffiniad mwyaf syml o Gristion yw *yr un sydd yn canlyn Crist.* Dyna oedd deffiniad yr Iesu ei hunan: "Fy nefaid I sydd yn gwrando

fy llais, a hwy a'm canlynant I;" "Myfi yw y ffordd, a'r gwirionedd, a'r bywyd;" "Deuwch ataf fi bawb a'r y sydd yn flinderog a llwythog;" &c. Pan eisteddai Mair wrth ei draed, ac y gwrandawai ei eiriau, dywedodd wrthi "ei bod wedi dewis y rhan dda."

IACHAWDWRIAETH DRWY GYMMERIAD.

Y pedwerydd pwynt o'r dduwinyddiaeth newydd fydd iachawdwriaeth drwy gymmeriad. Golyga iachawdwriaeth y llawenydd neu y tangnefedd mae yr enaid yn alluog i'w feddu. Golyga nefoedd yma a nefoedd wedi myned oddiyma. Y mae yr iachawdwriaeth hon wedi cael ei hesponio fel rhywbeth y tu allan i ni—rhyw rodd allanol i ni, rhyw sefyllfa allanol—lle neu amgylchiad. Siaradwn am fyned i'r nefoedd fel pe byddem i gael ein gwneyd yn ddedwydd yn unig drwy gael ein gosod mewn lle dedwydd. Ond y wir nefoedd ydyw cyflwr o'r enaid. Daioni mewnol ydyw—Crist wedi ei gael yn fewnol. Cariad Duw yn y galon ydyw, yn ymddangos yn y bywyd a'r cymmeriad.

Dynodai y geiriau cyntaf lefarodd yr Iesu y grediniaeth hon. Mae y tlodion yn yr yspryd eisoes yn meddiannu teyrnas nefoedd. Y mae y pur ei galon eisoes yn y nef. "Hyn yw y bywyd tragwyddol, iddynt dy adnabod Di, yr unig wir Dduw, a Iesu Grist, yr hwn a anfonaist Ti." Y mae gan yr hwn sydd feddiannol ar ffydd yr Iesu fywyd tragwyddol yn aros ynddo. Y mae y dwfr a rydd yr Iesu yn dyfod yn ffynnon o ddwfr o fewn i'r enaid, "yn tarddu i fyny i fywyd tragwyddol." Nac edrychwn am nefoedd allanol, gan ddywedyd, "Wele yma neu wele acw, oblegyd teyrnas nefoedd o'ch mewn chwi y mae."

Pan ddelom i efrydu geiriau yr Iesu fel yr ydym yn awr yn efrydu duwinyddiaethau dynol, cawn allan ei fod Ef yn uno daioni â'r nefoedd ac yn gwneyd cymmeriad yn hanfod iachawdwriaeth. A phan ddelom i weled nad yw archwaethau ysprydol ac arferion yn cael eu sefydlu mewn awr, ac y canfyddwn nad yw proffes allanol, gweddiau, a sacramentau, yn tycio dim oddieithr fod y galon yn bur, bydd i gymhelliad newydd gael ei ychwanegu i gynnyddu daioni y byd. Bydd cymmeriad y pryd hwnw yn ffrwyth ffydd i raddau na sylweddolwyd erioed o'r blaen.

CYNNYDD NEU FLAENFYNEDIAD PARHAUS.

Y pummed pwnc yn yr athrawiaeth newydd o dduwinyddiaeth, fel y credwn ni, fydd parhad dadblygiad dynol yn mhob byd, neu flaenfynediad dynolryw rhagddynt ac i fyny dros fyth. Cynnydd yw y nefoedd allanol, yn cyfateb i'r nefoedd fewnol o gymmeriad; y gobaith am flaenfynediad yw un o'r prif gymhelliadau i weithrediad. Nid yw dynion yn ymfoddloni, ni waeth pa mor dlawd y byddo eu rhan, cyhyd ag y gallant obeithio am rywbeth gwell. Ac y mae dynion yn anfoddog, ni waeth pa mor ffodus y byddo eu sefyllfa, pan nad oes ganddynt ddim rhagor ac uwch i edrych yn mlaen ato.

Ni osodai yr hen dduwinyddiaeth ddim pwys ar flaenfynediad yma nac ar gynnydd yn y dyfodol. Yr un peth hanfodol oedd troedigaeth:

wedi i'r eiliad hono basio, yr oedd amcan bywyd wedi cael ei sicrhau neu ei gyrhaedd. Dychymygid fod dyn, wedi iddo gael troedigaeth ar ei wely angeu, ar ol bywyd o bechod, mor barotoedig i'r nefoedd â'r dyn oedd wedi arwain bywyd Cristionogol yn ystod oes hirfaith. Ni roddid un awgrym yn nghylch cynnydd pellach wedi i'r nefoedd gael ei chyrhaedd, ond fod tragwyddoldeb i gael ei dreulio mewn diolchgarwch parhaus, neu yn y mwyniant dibaid o orfoledd paradwys.

Pa fodd bynag, nid un felly oedd dysgeidiaeth yr Iesu. Gwneir y gwas yn y ddammeg a ennillodd ddwy bunt yn llywodraethwr ar ddwy ddinas; ca yr hwn a ennillodd bum' punt ofal pum' dinas. A chydwedda hyn â phob peth a welwn ac a wyddom; gyda'r mynediad yn y blaen o ddadblygiad daearegol drwy yr hwn yr addaswyd y ddaear i fod yn breswylfod dyn; gydag esgyniad graddol bodau trefnus o fywyd is i fywyd mwy cyflawn; gyda chynnydd cymdeithas o oes i oes; gyda lledaeniad gwybodaeth; gyda gwelliant a chynnydd gwareiddiad, tyfiant sefydliadau rhydd, a chaffaeliad parhaus o amgylchiadau uwch am Dduw.

Yr un ffaith sydd wedi ei hysgrifenu ar natur â'r bywyd dynol, sef y ffaith o flaenfynediad, a rhaid yw derbyn hyn fel bwriad y Creawdwr. Bydd i'r Hwn sydd wedi gwneyd y byd hwn yn hawddgar beru i'r byd arall fod mor hawddgar ac mor gyflawn o bob peth a allo weini i'n haddysg a'n cynnydd. Yno, fel yma, pa beth bynag a hauo dyn a fêd efe; yno, fel yma, ceir allan amrywiaeth diderfyn o alwadau, gorchwylion, dysgyblaeth—digon i'w wybod, digon i'w garu. Bydd i Dduw, yr Hwn sydd wedi taenu y fath ardderchogrwydd a phrydferthwch dros holl natur, yr Hwn a leinw awyr a môr, nefoedd a daear, gyda'r fath gynghanedd o ffurfiau a lliwiau, y fath felusgerddi o elltydd a gwyntoedd a dyfroedd, agor o'n hamgylch yno olygfa fwy aruchel fyth, natur fwy hawddgar fyth, dan yr un Rhagluniaeth, yr un Cariad bendigedig. . . . .

Y fath fydd duwinyddiaeth yr Eglwys ddyfodol, yr hon a ryddheir oddiwrth ddefodaeth, haerdybiaeth, a sectyddiaeth, ac a feddianna yn barhaus fwy a mwy o feddwl a chalon Crist Iesu. Felly y dywed

J. F. C.

I BA LE?

Mae'r gwyll o'm cylch yn cau,
A'r du gysgodau'n llethu'm llygaid llaith;
Aeth heibio'r haul, mae'r byd dan fantell nos;
Yn unig rhaid gwynebu'r anial ros,
Yn unig, sefyll Dychryniadau'r Daith—
Mae'n drist, yr enaid mau!

P'am trowch i ffwrdd, fy nhad ?
Chwi dd'wedwch nad oes nef, nac uffern chwaith,
Eich plentyn wyf—byw'n ufudd fu fy nghais ;
O ! p'am eich golwg drist ? Eich lleddfol lais ?
Rhowch im' ryw gred fo'n lamp ar ddyrus daith
Trwy'r caddug leinw'r wlad.

Ow, unig ydwyf fi—
Yr hen Ddirgelwch gaua am dana'I 'nawr ;
'Rwy'n teimlo'i iasau oeraidd ar fy ael ;
'Does amser mwy ; ffodd gobaith f'enaid gwael ;
Ac yn lle'r bara ddaeth o'r nef i lawr,
Ces garreg genych chwi !

Nis gallaf beidio bod !
Mae rhyw rhagwybod gwan am arall fyd—
Rhagdeimlad o ryw fyth-Sylweddol, byw—
Dyhead dwys yr enaid, awgrym yw
Nas derfydd dim sydd wedi bod ; pa hyd
F'anorphwys is y rhod ?

Beth fyddaf hwnt i'r llen ?
Pob planed gylcha'i ganolbwyntiol haul
Dan berffaith lywodraethiad—ai myfi
Yw'r unig fod heb lywodraethol Ri ?
Beth fydd fy nhynghed ? Ow, anffyddiaeth wael !—
F'anffyddiaeth ddaeth i ben !

C. L.

NODIADAU AR LYFR YR ACTAU.

(Parhad o tud. 277).

Ni chrybwylla yr awdwr ei enw ei hun gymmaint ag unwaith yn y llyfr, ond yn y rhanau olaf o hono defnyddia yn fynych y rhagenw *ni*, yr hyn a brawf ei fod yn llygad-dyst o'r dygwyddiadau a gofnoda yn y rhanau hyny. Ymddengys y rhagenw "ni" gyntaf yn xvi. 10—17, lle y cawn iddo ymuno â Paul yn Troas yn ystod ei daith gyntaf, a'i ganlyn hyd Philippi, oblegyd yma ail-ymgynghora â'r adroddiad yn y trydydd person, a pharha felly nes yr ymuna â Paul drachefn yn Philippi yn ei drydedd daith (Actau xx. 5—38). Honir gan rai nad yw y dull hwn o gofnodi yn brawf digonol o bresenoldeb yr ysgrifenydd yn y manau hyny a grybwyllir, ond yn hytrach y traetha yr hanes megys yn ngeiriau y rhai adroddasant yr hanes iddo. Gyda golwg ar hyn, gellir dweyd nad yw yn debygol y gwna ysgrifenydd o

allu a medr awdwr yr Actau, yr hwn oedd wedi arfer gosod agwedd hanesyddol i fynegiadau ereill, newid ei adroddiad o un person i'r llall mewn pedwar o fanau. Heblaw hyny, byddai yn drais ar synwyr i dybied nad oedd yr awdwr, yr hwn sydd yn gosod ei hun fel yn cymmeryd rhan bersonol yn y gwaith a wneid—nad oedd, wedi y cyfan, yn llygad-dyst o'r hyn a fynega.

Mae y paragraff nesaf lle y defnyddir y rhagenw *ni* yn y xxi. 1—18, ac er fod yr hanesydd unwaith etto yn syrthio i'r trydydd person, y mae lle cryf i gasglu ddarfod iddo, o hyn allan, gyd-deithio â'r apostol hyd ei ddychweliad i Rufain, oblegyd cawn ef yn xxvii. 1, yn dweyd fel hyn:—"A phan gytunwyd forio o honom ymaith i'r Ital," &c. Hefyd, y mae llythyrau Paul yn dwyn tystiolaeth i bresenoldeb Luc gyda'r apostol pan oedd yn garcharor yn Rhufain, canys dywed yn ei Epistol at Philemon (adn. 24), yr hwn a ysgrifenwyd o Rufain yn ystod ei garchariad cyntaf, fod Luc yn un o'r rhai oeddynt yn ei anerch:—"Y mae yn dy anerch Marc, Aristarchus, Demas, Luc, fy nghydweithwyr." Yn ei Epistol at y Colossiaid hefyd, yr hwn a ysgrifenwyd o Rufain tua'r un adeg, sonia Paul am "Luc y Physigwr anwyl" (Col. iv. 14). Mae lle cryf i gredu ddarfod i Luc mwyach barhau yn gydymaith i Paul, oblegyd dywed yn 2 Timotheus iv. 11, "Luc yn unig sydd gyda mi."

Mai y Physigwr anwyl oedd ysgrifenydd yr Efengyl a'r Actau sydd amlwg oddiwrth y defnydd a wna o dermau meddygol yn ei ddesgrifiad o glefydau, megys yn hanes chwegr Simon (Luc iv. 38), am y wraig a'r diferlif gwaed (viii. 43), yn ei ddesgrifiad o ing yr Iesu (xxii. 44). Hefyd, yn ei ddarlun o'r gwr cloff wrth borth y deml (Act. iii. 7); yn ei sylwadau ar farwolaeth Herod Agrippa (xii. 23); yn y dull y cofnoda hanes dallineb Elymas y Swynwr (xiii. 11); ac y rhydd ddesgrifiad o glefyd tad Publius yn Melita (xxviii. 8) Y mae cymhariaeth o arddull Roegaidd yr Efengyl a'r Actau hefyd yn arwain i'r un casgliad, sef eu bod yn gynnyrch yr un awdwr.

Dylid sylwi hefyd y defnyddir mwy na 50 o eiriau yn yr Efengyl a'r Actau na cheir mo honynt mewn manau ereill o'r Testament Newydd.

Gan fod y gwaith hwn, fel Efengyl Luc, heb enw yr awdwr yn cael ei fynegu, ac mai traddodiad yn unig sydd wedi cyssylltu enw Luc â hwy, y mae llawer cynnyg wedi cael ei wneyd o bryd i bryd i briodoli yr awduraeth i ryw berson arall. Awgryma rhai beirniaid mai Timotheus yw awdwr y rhanau hyny adroddir yn y person cyntaf, am fod y llythyrau at y Corinthiaid, y Thessaloniaid, a'r Philippiaid yn crybwyll enw Timotheus gydag anwyldeb a serch, a'i bod yn naturiol, gan hyny, casglu mai Timotheus oedd cydymaith Paul pan yn sefydlu yr eglwysi yn y manau hyny. Ond gwelir, oddiwrth Actau xx. 4, 5, fod rhyw gyfaill adnabyddus gyda Phaul ar ol i bawb ereill ei adael, a dywedir yn bendant fod Timotheus wedi myned ymaith. Nid oes un sail hefyd i'r dybiaeth mai Silas yw yr ysgrifenydd yn y person cyntaf. Os edrychir i'r xv. 22, ceir, yn ol y ddamcaniaeth hon, fod Silas yn siarad am dano ei hun fel y prif ddyn yn mhlith y

brodyr. Nid yw debygol y gwnai un ysgrifenydd lefaru am dano ei hun yn y modd hwn.

Dywed rhai mai yr un yw Silas a Luc, am fod y ddau enw yn gyfystyr—Silas neu Silvanus yn arwyddo coed, a Luc neu Lucanus yn arwyddo coedwig, a'r prawf o hyn, meddant, yw nad yw y ddau byth yn cael eu henwi gyda'u gilydd. Ond y mae yn amlwg oddiwrth hanes carchariad Paul a Silas yn Philippi, fod yr ysgrifenydd hwn, pwy bynag yw, yn llefaru yn y person cyntaf; gan hyny, rhaid ei fod yn rhywun amgen na Silas. Gweler xvi. 16—19. Heblaw hyn, dylid cadw mewn cof y ffaith pan y gosodid dau enw ar yr un person, y byddai y ddau enw hyny yn deilliaw o wahanol ieithoedd. Er enghraifft, yr oedd Thomas a Cephas o'r Aramaeg, tra yr oedd Didymus a Phedr o'r Groeg. Ond y mae y ddau air Silas a Luc o darddiad Lladinaidd.

Nid yw yr honiad mai Titus yw yr awdwr chwaith namyn ffrwyth dychymyg o ddyfeisiad diweddar.

Gyda golwg ar *amseriad* yr Actau, y mae yn amlwg i bob darllenydd diragfarn fod y dygwyddiadau a gofrestra yr awdwr wedi cymmeryd lle tua'r adeg y cofrestrwyd hwynt. Mae ein gwybodaeth am Gamaliel o ffynnonellau hanesyddol ereill yn gyfryw ag i'n galluogi i ddeall fod Luc yn siarad am dano yn gywir fel y dysgwylia iddo siarad. Hefyd, dyry i ni hanes Cæsarea yn gywir fel y cawn ef mewn ysgrifeniadau ereill cyn dinystr Jerusalem. Cyfeiria at y newyn yn nyddiau Claudius Cæsar mewn iaith na allasai neb arall wneyd ond y sawl a feddai wybodaeth bersonol o'r dygwyddiadau hyny. Mae yr hanes a rydd am Herod Agrippa mewn cydgordiad perffaith ag eiddo Josephus, yr hyn a ddengys fod yr ysgrifenydd yn berffaith gydnabyddus â manylion yr amgylchiadau yn nghylch marwolaeth yr ymherawdwr hwnw. Mae yn eglur hefyd, oddiwrth y modd y dynoda y llywodraethwr Rhufeinig yn Cyprus a'r teitlau ynadol yn Thessalonica a Melita, ei fod yn gyfarwydd â'r lleoedd y cyfeiria atynt. Mae ei adroddiad am waredigaeth Paul drwy law y pen-cadben yn Jerusalem yn llawn o awgrymiadau achlysurol ydynt yn fynegai o'r terfysg a'r annhrefn oedd yn blino Judea ar y pryd, yr hyn sydd yn profi ar unwaith na all yr hanes fod, fel y myn rhai, yn ffrwyth rhyw berson dychymygol, yr hwn a osododd yn nghyd Lyfr yr Actau yn mhen amser maith ar ol marwolaeth yr apostolion. Mae y crybwylliad am y llu o filwyr—470 mewn nifer—a amddiffynent Paul i Cæsarea y peth diweddaf a feddyliai neb am ei ddyfeisio mewn amser diweddarach, gan yr ymddengys y fath nifer yn anghymmesurol o fawr ond i'r sawl oedd yn gynnefin ag amgylchiadau y wlad yr adeg hono, a'r peryglon ar ffordd teithio oddiwrth finteioedd o yspeilwyr, ac y gellid yn wastad hurio y gorphwylliaid hyn at unrhyw ddybenion maleisus. Dygir Ffestus ac Agrippa hefyd ger ein bron mewn perffaith gydgordiad â'r hyn a ddysgwn am eu cymmeriadau mewn hanesiaeth gan ysgrifenwyr cyfoesol.

Ond yn y crybwylliadau mynych a wneir am Jerusalem y cawn y profion cadarnaf yn nghylch amseriad yr Actau. Cafodd y ddinas hon

ei dinystrio gan y Rhufeiniaid yn y flwyddyn 70 o oed Crist. Eithr nid oes drwy yr holl lyfr gymmaint ag un gair yn awgrymu fod yr ysgrifenydd yn gwybod dim am yr amgylchiad hwnw, nac hyd y nod am yr achosion a'i dygasant oddiamgylch. Mae y ddinas hyd yn hyn mewn meddiant o'i mawredd, a'r aberthau a holl wasanaeth y Deml yn cael eu cadw. Yn ystod y gwyliau mawrion, mae y torfeydd yn ymgynnull yno, fel y gofynir gan y gyfraith, ac yn mysg y trigolion, mae yr Ysgrifenyddion a'r Phariseaid, a'r Saduceaid yn chwareu eu rhan yn union fel y gwnant yn yr Efengylau. Hefyd, y mae lleoliad porth Solomon, maes Aceldama, a thwr Antonia, a'i gyfagosrwydd i'r Deml, yn cael eu crybwyll fel manau adnabyddus sydd yn bodoli ar y pryd, a sieryd yr ysgrifenydd am danynt fel llefydd ag oeddynt yn ddigon hyspys i'w ddarllenwyr. Nid yw Annas a Chaiaphas ac Ananias iddo ef yn bersonau oeddynt yn byw yn mhell yn y gorphenol, ond cymmeriadau y presenol yn trigiannu mewn dinas oedd etto yn sefyll mewn dyogelwch.

(I'w barhau.)

Y CHWYLDROAD YN BRAZIL.

Mae yn ddiamheu mai un o brif ddygwyddiadau y flwyddyn 1889 ydyw'r chwyldroad mawr a gymmerodd le yn ddiweddar yn Brazil. Mae yn ddygwyddiad pwysig gan nad yn mha oleu bynag yr edrychir arno—pa un bynag ai yn ei gyssylltiad a'r wlad dan sylw, neu yn ei gyssylltiad a theyrnasoedd ereill y byd. Dichon fod y wlad hon i rai o ddarllenwyr Yr Ymofynydd yn anadnabyddus; ac er mwyn y cyfryw, yn gystal ag er bod mewn gwell sefyllfa i ddeall ac amgyffred maint y cyfnewidiad sydd wedi ei wneyd, yr wyf yn dechreu trwy osod i lawr y ffeithiau canlynol:—

Mae Brazil yn rhan helaeth o Ddeheubarth America, un o'r teyrnasoedd helaethaf yn ddiamheu. Er galluogi'r darllenydd i ffurfio rhyw ddychymyg yn nghylch ei helaethrwydd, gellir dweyd ei bod oddeutu deg-ar-ugain o weithiau yn fwy na Phrydain Fawr, ac yn meddu ar boblogaeth o yn agos i 15,000,000. Darganfuwyd y wlad yn y flwyddyn 1500, gan y Portugeaid, gan y rhai y poblogwyd hi yn fuan ar ol hyn. Yn y flwyddyn 1822, gwnawd hi yn deyrnas annybynol, ac oddiar hyny hyd yn bresenol, mae wedi cael ei llywodraethu gan Ymherawdwr (yr hwn oedd yn wastad yn aelod o'r teulu Breninol Portugeaidd), a chan Senedd, un rhan o'r hon a etholid gan yr Ymherawdwr, a'r rhan arall yn cael ei hethol gan y bobl. Yr oedd yr Ymherawdwr diweddar yn y 58 flwyddyn o'i deyrnasiad; a dywedir nad oes un pen coronog sydd yn fyw yn awr wedi gwneyd mwy dros ledaeniad gwybodaeth a lles cyffredinol ei bobl nag a wnaeth efe. Dywedir ei fod yn cashau rhyfel a chas perffaith, ac fod ei holl feddwl, a'i fryd,

a'i chwaeth yn rhedeg mewn cyfeiriadau hollol wahanol i'r rhai sydd yn yr un sefyllfa. Ac etto, heddyw, mae wedi cael ei ddiorseddu, a'r gwaith o lywodraethu y deyrnas Brazilaidd wedi cael ei osod mewn dwylaw newydd.

Yn awr, y mae'n anhawdd iawn, braidd yn anmhossibl, mesur y dylanwad mawr (er gwell gobeithio) a all y dygwyddiad hwn ei gael mewn gwahanol gyfeiriadau. Ond gellir teimlo yn sicr, credaf, nad bychan fydd. Yn y lle cyntaf, gall ddylanwadu yn fawr ar lwyddiant a chynnydd y wlad ei hun. Ond y mae hyn yn ymddybynu i raddau ar y doethineb gyda'r hwn y bydd y weinyddiaeth yn cario allan ei gwaith. Y mae gwlad mor eang yn addas i ddadblygiad diderfyn bron; ac fe ddywedir fod y diriogaeth yn gyfoethog iawn mewn mwnfeydd o wahanol fathau, fod y ddaear yn ffrwythlawn tu hwnt, yn enwedig felly y rhanau mwyaf isel o honi. Y mae yn abl i gynnal miliynau lawer yn rhagor o bobl nag sydd ynddi yn bresenol. Ac os bydd y llywodraethwyr newydd yn ffyddlawn i'r egwyddor sydd wrth wraidd pob gweriniaeth, a'r hon egwyddor sydd yn cael ei chario allan yn fwy neu lai trwyadl gan weriniaethau presenol y byd, gall y chwyldroad hwn sydd newydd basio mor heddychol fod yn ddechreuad ar gyfnod newydd yn hanes y wlad. Ac yn mhellach, gall fod yn gyfnod o fywyd newydd i'r bobl ogaeth, y rhan fwyaf o'r rhai sydd newydd gael eu gollwng yn rhydd o lyfetheiriau caethwasiaeth. "Daioni mwyaf y nifer lluosocaf" ddylai fod arwyddair pob gweriniaeth, a phob ffurf arall o lywodraeth hefyd, ond y flaenaf yn neillduol. Y mae yn ymddybynu ar y Llywodraeth newydd pa un a fydd bywyd yr holl filoedd sydd wedi cael eu rhyddhau o gaethiwed yn amser y diweddar Ymherawdwr rywfaint yn well na phe buasent yn aros yn eu caethiwed o hyd. Nid oes genym ni ond datgan ein gobaith a'n dymuniad y bydd y weriniaeth newydd hon yn canlyn ol gweriniaethau ereill y byd, ac yna, gallwn deimlo yn sicr y bydd, cyn pen ychydig flynyddau, yn sefyll cyfuwch a hwynt yn mhob ystyr.

Ond nid yw dylanwad y chwyldroad hwn i'w gyfyngu i'r deyrnas Brazilaidd mewn un modd. Y mae yn sicr o ddylanwadu ar deyrnasoedd ereill, yr hwn ddylanwad a gaiff ei deimlo mewn rhyw gyfeiriadau yn fuan. Dywedir am y genedl Bortugeaidd, er enghraifft, ei bod i raddau helaeth yn cydymdeimlo a'r hyn sydd wedi dygwydd yn Brazil; cyn fod neb yn gallu cydymdeimlo a dygwyddiad o'r natur hyn, mae'n rhaid fod yna ddeddiad at rywbeth cyffelyb yn ei natur yn flaenorol; ac os oedd y tueddiad hwn yn bodoli yn mynwesau rhyw gyfran o'r genedl Bortugeaidd cyn hyn, gallwn fod yn sicr ei fod lawer yn ddyfnach erbyn hyn, ac ni fydd yn un rhyfeddod yn y byd pe bai rhywbeth o'r natur hyn yn cymmeryd lle yn Portugal ei hun, a hyny yn fuan hefyd.

A gellir dweyd yr un peth yn lled agos am wledydd ereill. Mae rhai o honynt, yn wir, yn fwy aeddfed na'u gilydd. Nis gall neb ag sydd yn gallu darllen arwyddion yr amserau lai na chanfod yn eglur fod y byd yn cyflymu yn y blaen yn y cyfeiriad hwn. Ac am hyn mae'r penau coronog eu hunain yn gyfrifol i raddau helaeth, o herwydd y

gwastraff mawr sydd yn nglyn a hwy, eu diffyg cydymdeimlad â'u deiliaid, eu gwaith yn eu beichio a beichiau mor drymion ac anhawdd iw cario, ac yn cadw oddiwrthynt (hyd y gallant) y rhagorfreintiau hyny ag y mae pob dyn yn dyheu am danynt. Mae hyn yn un achos mawr o'r anfoddogrwydd sydd yn bodoli yn bresenol yn mysg dospeirth helaeth o ddynion yn mhob gwlad. Ac yn mhellach na hyn, mae y byd ar ei gynnydd yn mhob cyfeiriad, a chydraddoldeb yn dod yn fwy o ffaith bob dydd; mae dynoliaeth yn myned tuag i fyny ac yn dadblygu, ac fel y bydd dynoliaeth yn dadblygu, bydd yn fwy a mwy anmhossibl cadw i fyny yr un *system* sydd yn ffafriol i raddfreintiau.

Y TROAD ALLAN YN Y LLWYN.

Cyfansoddwyd y Pennillion canlynol Nadolig, 1876.

O Lwynrhydowen llawn o swyn, hen gapel fy nghyndeidiau;
Lle gorwedd yn dy fangre fwyn rai anwyl im' er's dyddiau;
Lle bûm yn blentyn, ac mewn oed, dan nawdd y rhai a'm carant,—
Yr uwchaf barch yn wastad boed i'nt oll, ac yn ddiffuant.

Ffarwelio raid i ni dros byth,—gwnaf hyny it' ar ganiad;
Bûm fyw yn ddedwydd yn dy nyth nes daeth cas awr ysgariad:
Ond 'nawr, och! y fath feddwl prudd sy'n d'rysu penau llawer
Wrth feddwl fod rhaid rho'i dan gudd hoff adgof llawn o bleser.

Ffarwel, ffarwel,—'rwy'n methu bron, acenu y fath eiriau;
Mae poenau erchyll dan fy mron, a dagrau dros fy ngruddiau;
Ond bydded ynom y pur waed a chalon y ffyddloniaid,
Rhaid gadael Llwyn,—awn i'r Ty Coed,—gwnawn ymdrech mal gwroniaid.

Difeddiant yw a fernir gan bob ffyddlon blentyn Rhyddid
Drwy'r oll o'n gwlad, ac yn mhob man, i'r oes yn warthus ergyd,
Pe bai teyrnwialen Prydain Fawr yn mhalfau rhai Ceidwadwyr,
Nis gwyr un dyn pa beth ryw awr gyflawnent ar rai brodyr.

Er hyn, gyfeillion mwynion mâd, boed i ni oll heb bryder
Ddadseinio'n barn, ac yn y gâd ymfrwydro yno'n ddysglaer;
Yn ngwres ein sêl, mewn oes ag sydd yn orlawn o'r fath freintiau,
Ar lafar, gwasg, a phwlpud rhydd, rho'wn fryd ein holl feddyliau.

Boed "Rhyddid" wiwlan, heb ei math, yn faner uwch ein penau,
A Gobaith, Cariad, fel dwy saeth yn hedfan dros y cadau,
Ein gobaith yw cael cartref clyd a fyddo fel cadfuddiant
I'w ddwyn i lawr drwy droion byd i'r oes a ddel mal cofiant.

LLYWARCH LLWYD.

DIFFYGION YR YSGOL SUL.

NID oes neb a fedr amheu nad oes diffygion yn perthyn i'r Ysgol Sul. Pa beth sydd heb ei ddiffyg? Etto, nid gwir fod Ysgolion Sul yn *failure*, fel y myn rhai. Mae pob peth yn fethiant yn y dydd presenol yn ngolwg rhai. Cawd dadl fawr yn y papyrau yn ddiweddar fod priodas yn fethiant. Ac y mae cannoedd yn credu fod bywyd ei hun yn fethiant, ac y mae yn ddiamheu fod gwir yn yr hyn a ddywedir. Ond y mae fod bywyd yn fethiant yn dybynu ar y person ei hunan, y mae yn ei law ef i'w wneuthur yn fethiant neu yn llwyddiant. Nid oes un fendith ag y mae Rhagluniaeth dyner yn ei gosod yn ein dwylaw nas dichon dyn ei throi yn felldith. Ond ar y dyn ei hunan y mae hyny o fai yn gorphwys. Os yw ein bywyd yn *failure* neu yn fethiant, ni ein hunain sydd yn ei wneuthur felly. Nid oes neb a amheua nad yw yr Ysgol Sul yn syrthio yn fyr o'r hyn y mae ei chyfeillion goreu yn ei ddymuno iddi. Etto, y mae gwaith yr Ysgol Sul yn waith gogoneddus, ac yn un nas gellir ei hebgor heb achosi lleihad difrifol yn ngwerth moesol bywyd y byd. Nid yw yr Ysgol Sul i'w chyfrif yn fethiant oblegyd fod rhai o'i deiliaid yn troi allan yn anffyddlon. Deuddeg apostol ddewisodd yr Iesu, ond trodd un o'r rhai hyny yn fradwr. O'r braidd y beiddia neb ddywedyd fod Cristnogaeth oblegyd hyny yn fethiant. Gadewch i ni, wrth gwrs, geisio gwellhau yr Ysgol Sul, bod yn fwy gwresog a gweithgar, ffyddlon ac ymdrechgar. Diwygiwn hi os gallwn; o leiaf, ceisiwn ddiwygio ein hunain. Mae y presenol yn ddiamheu yn gyfnod pwysig yn hanes yr Ysgol Sul. Ond beiddiwn ddywedyd, os bydd plant yr ysgolion byrddol mor ffyddlon i'w goleuni ag y bu eu tadau i'w goleuni hwy, fod dyfodol mwy dysglaer a mwy llwyddiannus nag erioed yn aros yr Ysgol Sul. Adgyfaddaser yr ysgol at ofynion newyddion yr oes. Gwnaer hi yn fwy nag erioed—nid yn beiriant gwybodaeth yn unig, ond yn ffynnonell crefydd a moesoldeb—yn ysgogydd cymmeriad da. Y mae rhif deiliaid yr Ysgol Sul yn Mhrydain Fawr heddyw yn agos i saith miliwn, a rhif yr athrawon dros saith can' mil. Os troir hanner y rhai hyn allan â gwell syniad am ddyledswydd, ac uwch amcanion mewn bywyd, ni fydd gwaith yr Ysgol Sul yn waith ofer.

Os yw yr Ysgol Sul yn fethiant, carwn ofyn beth sydd yn llwyddiant? A ydyw y dafarn yn llwyddiant, tybed? Y mae byddinoedd y tywyllwch yn amlwg yn myned yn fwy haerllug bob dydd; ac y mae yn bryd i bob dyn edrych ati a chymmeryd ei ochr fel dyn.

P. P.

ER GWASANAETH EIN HYSGOLION SUL YN SIR ABERTEIFI.

Ioan i. 37—51.

Beth yw ystyr yr enw *Iesu* a'r arenw *Crist?*
Beth yw yr arenw Crist yn *Hebraeg?*
Pa bryd y cymmerodd yr Iesu yr arenw hwn arno ei hun?
Pwy oedd y rhai a ganlynasant yr Iesu *gyntaf*, a phwy o honynt oeddent berthynasau?
Paham yn neillduol y canlynent yr Iesu?
Wrth ba enwau y galwent Ef, ac wrth ba enw y galwai efe ei hunan?

Ioan ii. 1—11.

O ba le y daeth yr Iesu i Gana Galilea?
Pa ran o Balestina oedd Galilea?
A oedd Cana arall heblaw Cana Galilea, ac os oedd, yn mha le?
Pa fodd yr arferai yr Iuddewon gyflawnu y seremoni briodasol?
Pa fodd, yn debygol, y dygwyddodd mam yr Iesu fyned i'r briodas?
Pa le yr oedd Joseph y pryd hwn, gan nad oes son am dano yma?
Pa bryd y galwyd canlynwyr yr Iesu yn ddysgyblion gyntaf, a beth oedd eu henwau?
Os y golygwch fod gwyrth yn gredadwy, ar ba dir? Os yn annghredadwy, ar ba dir?
Ai gwin meddwol oedd ganddynt yn y wledd? Os nad e, beth yw eich rheswm dros gredu hyny?
Pa fath swyddog oedd "llywodraethwr y wledd?"

Ioan ii. 12—25.

Pa le yr oedd Capernaum?
Beth oedd enwau brodyr yr Iesu?
Pa amser o'r flwyddyn y cedwid gwyl y Pasc, a pha beth oedd ei dechreuad?
A oedd rhyw le neillduol yn y deml i gynnal marchnad, ac i ba ddyben y cynnelid marchnad yno?
A ddangosodd yr Iesu rywbeth yn debyg i *nwydau drwg* yn y deml?
Pa eisieu newid oedd ar amser yr wyl?
Ai hon oedd y deml gyntaf? Os nad e, pwy adeiladodd hono, a phwy adeiladodd hon?
Am ba reswm na wnai yr Iesu ymddiried am dano ei hun i'r bobl yn Jerusalem?

Ioan iii. 1—15.

Pwy oedd Nicodemus?
Sawl gwaith y sonir am dano yn yr Efengyl hon?

Paham y daeth at yr Iesu liw nos, a pha beth oedd ei amcan wrth ddyfod ?

Yn mha ystyr y golygai Nicodemus fod yr Iesu yn ddysgawdwr wedi dyfod oddiwrth Dduw, a phaham y meddyliai felly ?

A oes lle i gasglu fod yr Iesu (a 3) yn ateb rhyw ofyniad o eiddo Nicodemus nad yw yn cael ei goffhau yma gan yr Efengylwr ?

Ai yr un peth sydd i'w ddeall wrth "geni drachefn" neu oddiuchod a "geni o ddwfr ac o'r yspryd?" Os nad e, pa beth yw y gwahaniaeth?

Beth olygai yr Iesu wrth "deyrnas Dduw ?"

Ai yr un peth sydd i'w ddeall wrth "gweled teyrnas Dduw" a "myned i mewn i deyrnas Dduw?"

Pa gyfnewidiad a wneir mewn dyn gan yr ail enedigaeth y sonia Crist am dani ?

Eglurwch y gyffelybiaeth rhwng y "gwynt yn chwythu," &c., a "phob un a'r a aned o'r Yspryd."

Sut yr oedd Nicodemus yn methu deall yr Iesu, a phaham y synai yr Iesu o herwydd hyny ?

Beth ddeallwch wrth "bethau daearol" a "phethau nefol?"

Ai croeshoeliad yr Iesu sydd i'w olygu wrth y cyfeiriad at y sarff bres ?

Ioan iv. 1—29.

Pwy fath genedl o ddynion oedd y Samariaid ?

Beth oedd achos yr elyniaeth rhwng yr Iuddewon a'r Samariaid ?

A oedd y Samariaid yn fath o annghredinwyr yn ngolwg yr Iuddewon, a phaham ?

Gyda golwg ar Jerusalem a Gerazim fel manau neillduol i addoli, beth ddywedodd yr Iesu wrth y wraig o Samaria ?

Pa'm y dywedai'r Iesu am y Samariaid eu bod yn addoli y peth ni wyddent, ac am yr Iuddewon eu bod yn addoli y peth a wyddent ?

Ar ba sail y dysgwyliai y Samariaid am Fessias ?

Wrth bwy y dywedodd yr Iesu gyntaf mai Efe oedd y Messias neu y Crist ?

Matt. x.; Marc. iii.; Luc. vi.; Actau i.

Rhowch enwau y deuddeg apostol yn ol fel y cewch hwynt yn mhob un o'r pennodau uchod, a dywedwch pa rai o honynt oeddent yn perthyn i'w gilydd ac i'r Iesu.

A ychwanegwyd at rif yr apostolion mewn amser diweddarach ? Os do, enwch hwynt.

Enwch yr apostolion mwyaf gweithgar a llwyddiannus yn ol eich barn chwi."

Beth oedd "sêl yr apostoliaeth," neu "arwyddion apostol," neu y cymhwysderau angenrheidiol i'w swydd ?

MATT. XII. 1—12; MARC II. 23—28; MARC III. 1—6; LUC VI. 1—11.

Pa ddiwrnod o'r wythnos, yn ol ein cyfrif ni, oedd Sabboth yr Iuddewon?

Pa bryd yr oedd y Sabboth yn dechreu?

Pa bryd y dechreuwyd cadw'r Sabboth yn wahanol i ddiwrnodau ereill, ac i ba ddyben?

Ar ba dir y cyhuddai y Phariseaid yr Iesu a'i ddysgyblion o dori y Sabboth wrth dynu tywys a'u bwyta?

Pa beth oedd y rhesymau a roddodd yr Iesu yn yr amddiffyniad a wnaeth?

Ar dir Cristionogaeth, a ystyriwch fod y Sabboth neu y Sul, fel diwrnod, uwchlaw diwrnodau ereill?

Pa beth fyddai y canlyniad pe byddai Cristionogion yn glynu wrth lythyren cyfraith Moses yn mherthynas i'r Sabboth?

NODYNAU GWASGAROG.

AT EIN DARLLENWYR.

GYDA gradd helaeth o betrusdod yr ydym yn ymgymmeryd â dechreu blwyddyn arall gyda gwaith YR YMOFYNYDD, oblegyd mae y gorchwyl o olygu ein cyhoeddiad, yr hwn a allasai fod yn fater o bleser i ni, yn dyfod yn feichus, a hyny yn gyfangwbl o ddiffyg cydweithrediad. Nid ydym yn hoff o achwyn byth a hefyd, ond yr ydym dan orfod dweyd ein barn yn onest a di-dderbyn-wyneb, yn enwedig ar ddechreu blwyddyn fel hyn, fel, os dygwydd i'r ddarfodedigaeth ymafaelu yn YR YMOFYNYDD cyn diwedd y flwyddyn, y byddoch yn gwybod mai yr achos o hyny yw dim help digonol a *bad pay*. Pan ymgymmerasom â'r gwaith ychydig dros ddwy flynedd yn ol, cawsom addewidion gwastraffus oddiwrth amryw o'n gohebwyr, a thybiem ein bod, wrth esgyn i'r gadair olygyddol, yn myned i seithfed nefoedd o ddedwyddwch personol; ond mae y golygfeydd paradwysaidd oeddent yn ymagor o flaen ein meddwl yr adeg hono wedi ymddadblygu yn anialwch diffaeth, yn llawn o rwystrau ag sydd yn anhawdd eu gorchfygu. Yr ydym yn credu y bydd yn ofid i lawer o'n darllenwyr weled YR YMOFYNYDD yn marw, am y credwn ei fod yn gwneyd gwasanaeth nid bychan i'n henwad, ac ond i ni gael goreu ein cyfeillion yn y gwahanol ranau o'r wlad, mae'n sicr genym y gwneir ein misolyn yn llawer mwy dyddorol nag ydyw. Yr ydym yn ymwybodol o'r anhawsderau y mae ein dosparthwyr yn brwydro danynt parthed i'r taliadau, a derbyniant ein diolch diffuant am eu ffyddlondeb; ond eiddunwn am fwy o brydlondeb o du rhai o honynt, gan y bydd hyn o help mawr i ni.

Rhagor o help, gyfeillion, a gwnewch wasanaeth nid yn unig i ni, ond i'r enwad y perthynwn iddo. Mae ein crefydd yn gwaeddu arnom

i fod yn ffyddlon; mae ein rhwymedigaeth i gymdeithas yn gwneyd yr un peth. Gwnawn ein goreu, a chawn lawn dâl yn y meddwl ein bod ni wedi gwneyd yr hyn a allasom dros ein cyd-ddynion.

YR AFLONYDDWCH MASNACHOL.

Y mae y rhod fasnachol yn troi tuag i fyny unwaith etto, a hyny gyda'r canlyniad arferol o aflonyddwch cyffredinol. Ymddengys, ar rai ystyriaethau, braidd yn anesponiadwy fod heddwch fel rheol yn teyrnasu rhwng meistr a gweithiwr pan y mae y rhod yn myned i lawr, a'r cyflogau yn isel; ond pan y mae y cyflogau yn myned i fyny, yna, mae aflonyddwch yn canlyn. Sicr yw ei fod yn ddealledig o'r ddau tu mai drwg ynddo ei hun, drwg fel mae rhyfel yn ddrwg, yw pob sefyll allan, neu *strike*. Drwg mawr yw—drwg addefedig. Dinystrir cyfalaf, aflonyddir masnach, a gyrir ef i *centres* ereill, deffroir yspryd mwy anturiaethus, ac achosir cychwyniad gweithfaoedd newyddion i fod yn gydymgeiswyr yn y farchnad, a chynhyrfir chwilfrydedd y meddyliwr i geisio dyfeisiau newyddion ar faes yr adnoddau ydynt achos yr ymryson rhwng y meistriaid a'r gweithwyr. Ac etto, er fod y drwg yn addefedig, ystyrir ef yn anorfod ac anocheladwy, yn ganlyniad naturiol ymgais y gweithiwr wrth geisio ei gyfran deg o ffrwyth y gwelliant masnachol ar dymhor o lwyddiant. Mae yn amlwg fod y gweithiwr yn raddol (nid am ddim yr ydys wedi sefydlu ysgolion byrddol) yn dyfod i ddeall fod nerth mewn undeb. Ac yn ddiamheu, os gall y gweithiwr gadw o fewn tir rhesymol, nas dichon yr argyhoeddiad newydd hwn lai na bod o les cyffredinol. Da ydyw meddu nerth cawr, ond gofyna lawer o ddoethineb i'w iawn ddefnyddio. Tebyg iawn y gwneir llawer camsyniad yn y defnyddiad o hono, ond yn y *long run*, fe ennillir y profiad i'w weithio yn well. O dipyn i beth, fe ddaw y meistr a'r gweithiwr i ddeall fod eu buddiannau ill dau yn rhedeg ar hyd yr un llinellau. Deuant i barchu eu gilydd yn fwy, i geisio am ryw ffordd fwy rhesymol i benderfynu eu hymrysonau a'u camddealldwriaethau na thrwy *strikes a lock-outs*. Sefydlir byrddau cyflafareddol gyda'r canlyniad naturiol o estyn parhad yr adegau o lwyddiant masnachol. (Darllener yr erthygl yn YMOFYNYDD 1873, tud. 29). M. P. G.

LLADD Y BROGAOD.

Adroddir gan y chwedlonydd doniol Esop fod y bechgyn yn cael dyfyrwch mawr wrth daflu cerryg at y brogaod yn y llyn, ond fod y brogaod wedi gwneuthur appel ddifrifol atynt i gofio fod yr hyn oedd yn ddyfyrwch i'r bechgyn yn farwolaeth iddynt hwy. Ymddengys i mi mai dyfyrwch ynfyd iawn yw eiddo y glowyr yn awr yn gyru pris y glo i fyny trwy eu hanesmwythder, ac yn sicr y mae yn tueddu yn

nghyfeiriad ffolineb yr hen wraig a ddarfu ladd yr wydd oedd yn dodwy'r wyau aur. Po uchaf y gyrir pris y glo, cyntaf i gyd y cyrhaeddir y cyfnod pan y bydd yr arian a fwriedir at brynu glo wedi ei wario; a gorfodir yr amaethydd, y masnachydd, y saer, &c., i dolio ac i edrych am ryw ffordd arall i ateb dybenion glo. Mae tymhor yr adfywiad masnachol presenol yn sicr o gael ei fyrhau; ac os na wneir yn fuan, fe wneir cyn hir ddarganfod rhyw gynllun i leihau yr angen am lo. Fe bair yr angen am dano fel cynnyrchydd gwres efallai am dipyn etto, ond fel ffynnonell gallu peiriannol, mae ei amser bron ar ben. Paham na ellid cael mwy o ddoethineb rhwng meistr a gweithiwr, a boddlonrwydd ar bris rhesymol, yn lle defnyddio moddion *artificial* i godi'r pris? Po uchaf yr aiff y pris yn awr, iselaf i gyd y bydd yn y *near by and bye.*

R. JOHNSON.

MR. GOL.,—Mae Mr. John Morgans, prawfbwyswr, Llwynypia, wedi dweyd wrthyf y gellir ymresymu cymmeriad neu fodolaeth Duw oddiwrth elfenau natur, ac y cymmer efe dudalenau YR YMOFYNYDD i brofi ei haeriad. Yn awr, Mr. Gol., nid wyf yn meddwl fy mod I yn ddigon trwm o ddyn i gwrdd â Mr. Morgans: gwn ei fod yn ddyn lled eang ei wybodaeth. Ond yr wyf fi yn methu gweled y gellir ymresymu cymmeriad y Duw Mawr oddiwrth elfenau natur. Mae yn eithaf tebyg na chroesodd Mr. Morgans y *Western Ocean*, ac na welodd lidiogrwydd yr elfenau. Gallesid meddwl, lawer noswaith, nad oes un Duw yn bod. Yr wyf wedi gweled llong yn suddo, a phob enaid oedd arni yn myned i lawr gyda hi. Meddylier am ryw anffyddiwr yn sefyll o'r neilldu, ac yn gweled yr olygfa ofnadwy, ac yn clywed ysgrechfeydd y trueiniaid a äent i dragwyddoldeb! A allai rhyw ddyn weled bodolaeth neu gymmeriad y Duw a alwn ni yn Dad yn yr olygfa hona? Na: mae yn rhaid fod gyda ni ryw safon well nâ hynyna i adnabod y Duw Mawr. Mae yn rhaid i ni adnabod Duw yn yr enaid, ac nid yn elfenau natur. Yr enaid yw y man iawn i ddyn chwilio am ei Dduw, ac nid y *cyclone* a'r *hurricane*. Efallai y gwel Mr. Morgans yn dda roddi eglurhad i mi, fel un, paham y mae rhai manau o'r ddaear yn llosgi gan wir wres yr haul? Gwelais yn un o newyddiaduron Llundain fod yn Johannesburg ddynion ac anifeiliaid yn marw yn lleibiau o newyn a syched. A ydym ni i ddeall fod gan Dduw law uniongyrchol yn elfenau natur?

Ond mae gan bob dyn ddychymyg am ei Dduw, a'r dychymyg hwnw yn ymddybynu ar eangder ei wybodaeth. Nis gall un dyn fyned yn uwch nâ'i wybodaeth. Mae gwybodaeth pob dyn yn dechreu gyda phrofiad. Mae wyth teyrnas *(eight realms)* yn y byd gyda phobl wahanol yn mhob un o honynt. Ceir y Deyrnas Ogleddol *(Arctic)* gyda'r Esquimaux; y Mongol gyda'r Chinead; yr Ewropeaidd gyda'r Caucasiad; America gyda'r Indiad; Affrica gyda'r Negro; Hottentot gyda'r Puthmen; yr India Ddwyreiniol gyda'r Malay; yr Awstralaidd gyda'r Papuad. Mae llawer iawn o wahaniaeth rhwng y bobl hyn yn eu gwybodaeth, ac y mae yn eu plith lawer iawn o wahanol dduwiau.

Dywed Syr John Lubbock am yr hiliogaeth Caucasaidd (a pherthynwn ni, y Cymry, i hono), yr hon sydd yn byw ar y *temperate zone*, fel hyn: "And accordingly we find that his brain is equal in volume to that of the Turanian, while it is superior in form and finer in quality; thus conducing through intensity and activity, not only to greater mental power, but also to power of a higher order." Yn awr, gwelwn ein bod ni yn feddiannol ar fwy o synwyr cyffredin nâ phawb dynion ar y ddaear; a dylai ein syniadau ni fod yn burach am Dduw na chenedloedd ereill. Mae yn ddiddadl ein bod ni wedi bod yn addoli pethau natur, ond erbyn heddyw yr ydym wedi tyfu allan o'r gwendid hwnw, ac y mae gyda ni feddwl uwch erbyn heddyw am ein gwrthddrych addoliad. Ond pan y safwn ni ac y meddyliwn am Dduw—bôd meidrol yn meddwl am Fôd anfeidrol—a ydyw yn bossibl i ni ffurfio syniad am Fôd anfeidrol? Yr wyf fi yn "ddall post" ar y mater hwn. Pa le y cawn ni afael ynddo yn y *cyclone* neu yr *hurricane*, neu y bôd dynol? Gadawaf i Mr. Morgans ddweyd.

Yr wyf yn meddwl fod Mr. Morgans am ein harwain yn ol at hen arferion y *Zodiac*, cyn ei fod am fyned at elfenau natur i ddarganfod ei Dduw. Yr oedd yr Iuddewon yn dueddol iawn i ddychymygu corff i'w Duw, gyda breichiau, clustiau, a llygaid iddo, fel y gwelwn yn yr Hen Destament; a gwnai y Caldeaid eu duw i fyny o gorff eidion a phen dyn ac adenydd iddo. Gobeithiaf fod gyda ni well syniad am Dduw nâ hynyna, a'n bod yn cadw yr enaid yn lân iddo. Y mae y *Roman Catholic* yn tynu llun *the Holy Virgin with her Divine Child*. Y mae yr Hindu yn credu fod Krishna, ei dduw, wedi cael ei eni yn mhlith creaduriaid; ac y mae y Trindodiaid yn credu fod eu duw hwythau wedi cael ei eni yn yr ystabl. Nis gwn a yw Mr. Morgans yn credu yr un peth.

Tonypandy. JOHN JONES.

Y LLYFR TONAU.

MR. GOL.,—Yr wyf yn dod i guro wrth eich porth unwaith etto, gan ofyn am eich caniatad i'r ychydig linellau hyn gael ymddangos ar dudalenau YR YMOFYNYDD.

Y mae yn ofidus genyf fod pethau wedi cymmeryd y cwrs y maent wedi ei gymmeryd mewn cyssylltiad â'r pwnc uchod. Y mae y gohebiaethau sydd wedi ymddangos gan y brawd Mr. T. Lewis, Llandyssul, yn cael eu hystyried braidd yn isel eu chwaeth i ymddangos mewn misolyn o fath YR YMOFYNYDD, ond y mae rhai brawddegau nad ydynt yn deilwng iawn i bapyr dyddiol eu cyhoeddi, a'r cyfryw heb fod o nemawr, os dim, lles i hyrwyddo blaen-fynediad y llyfr dan sylw. Gellir bod yn sicr na wna ymgecraeth a chyndynddadleu drwy arfer ymresymiadau isel a dichwaeth, megys "ci yn cyfarth," "gwneuthur esgidiau still," a "chrynhoi wyau," &c., ddim ond peru i'r YMOFYNYDD fyned yn gyff chwerthin yn mysg enwadau gwrthwynebol i ni, a pheru i'n pobl ein hunain ei ffieiddio, a gadael yn ddisylw y gwaith pwysig a difrifol hwn. Credaf, Mr. Gol., y dylasech fod yn feddiannol—os nad ydych yn bresenol—ar awdurdod i roddi attalfa ar y penrhyddid hwn sydd yn cael ei gymmeryd o'r YMOFYNYDD,

nes peru i'r gohebwyr ysgrifenu mewn modd mwy teilwng, megys arfer *iaith* weddus, *ymresymu* yn deg a boneddigaidd, ac ymdrechu cael *syniadau* pur a chywir, fel y byddo'r YMOFYNYDD yn cadw ei garacter i fyny gerbron y byd.

Yr wyf yn meddwl na fyddai ond gwastraff ar eich gofod i mi geisio sylwi rhyw lawer yn mhellach ar eiddo Mr. Lewis, am y rheswm wyf wedi ei nodi, ac hefyd, am fy mod yn ystyried nad ydyw wedi bod yn alluog i wrthbrofi yr hyn a ysgrifenais i'r YMOFYNYDD am Medi diweddaf, a'r hyn hefyd a achosodd i Mr. Lewis (neu rywun arall) ddyfod allan i'r maes mor ddewr i amddiffyn—ond nis gwn pa beth, oblegyd nid ydym yn gwahaniaethu ond mewn un peth yn neillduol, wedi'r cwbl; hyny yw, fod Mr. Lewis dros gael yr emynau a'r tonau yn yr un llyfr, a minau dros donau yn unig. (Gweler fy rhesymau yn rhifyn Medi.) Etto, nid wyf yn credu mewn dal yn fympwyol at fy marn fy hun, pe byddai i lais mwyafrif yr eglwysi fod yn groes i hyny, ond byddaf yn barod i dynu i lawr "ganolfur y gwahaniaeth," a thaflu fy nghoelbren i fewn er cydweithio dros ba ffurf bynag y byddo'r llyfr. Gan hyny, fel mae'n ymddangos i mi, pwnc i'r eglwysi (yr oll o honynt) i'w benderfynu ydyw hwn. Nid ydwyf wedi deall a ydyw Mr. Lewis yn cydnabod y syniad hyn ai peidio, o herwydd, os ydyw yr eglwysi yn myned yn gyfrifol am y llyfr, dylasent, yn enw pobpeth sydd deg, gael llais ynddo; ond os oes rhyw berson neu bersonau am fyned i'r cyfrifoldeb eu hunain, yna ni fydd gan neb hawl yn ei drefniant, ond y cyfryw bersonau eu hunain.

Yn awr, Mr. Gol., yr wyf yn credu mai dymunol fyddai i ni bellach gael eglurhad ar y pwnc hwn, drwy gael gweled beth ydyw barn yr eglwysi yn fwyaf cyffredin ar hyn; ac i gyrhaedd yr amcan hwn, cynnygiaf rywbeth tebyg i gynllun, drwy roddi ychydig o ofyniadau yn YR YMOFYNYDD, ac i bob cynnulleidfa, o'r fwyaf hyd y ddistadlaf, roddi atebion iddynt, a'u danfon i chwi, Mr. Gol., i'w cyhoeddi yn YR YMOFYNYDD ãm Chwefror. Os gwnaiff pob eglwys hyn, bydd y wybodaeth hono, yn ddiamheuol, yn ddyddorol neillduol. Yr wyf yn rhoddi y gofal o'i gario allan i'n gweinidogion, os byddant mor garedig, nid am nad oes neb arall a all wneyd y gwaith, ond am fod, fel y dywedais, "gwaith pob un yn waith i neb," ac efallai mai gwaith i neb fyddai hwn mewn llawer man. Gan hyny, rhodded y gweinidog, neu rywun arall, y gofyniadau o flaen y gynnulleidfa y Sul cyntaf y byddo hyny yn gyfleus, ac yna, os yn angenrheidiol, gellir cael wythnos i'w hystyried, ond gofaler danfon yr atebion yn ddigon buan i'r Golygydd, er iddynt ymddangos yn rhifyn Chwefror. Wele'r gofyniadau:—

1. A oes arnom angen am lyfr tonau? Os oes,
2. Pa un ai llyfr tonau ac emynau, neu donau yn unig?
3. Pa un ai yn y ddau nodiant neu Solffa yn unig?
4. Os yr olaf gydag emynau, beth am yr Hen Nodiant?
5. Pa nifer o donau fydd yn angenrheidiol?
6. Pa faint o bris ddylai fod?
7. Beth am drefnydd neu olygydd y llyfr? Pa un ai un ai rhagor?

Yn awr, yr wyf yn rhoddi yr ychydig sylwadau annhrefnus hyn i ystyriaeth ein brodyr, gan obeithio y gwneir rhywfaint o sylw o honynt, ac y byddant yn foddion i daflu ychydig oleuni ar y pwnc dan sylw; a therfynaf gyda dymuno i chwi, Mr. Gol., a phawb o'ch darllenwyr, "Flwyddyn newydd dda." Yr eiddoch, &c.,

Llanbedr. W. WILLIAMS.

[Yr ydym dan orfod i roi terfyn ar yr ohebiaeth hon: mae rhai o'r gohebwyr wedi colli golwg ar y pwnc yn gyfangwbl, ac yn lle ymdrin â'r Llyfr Tonau, wedi ymostwng i iaith annheilwng o'r cyhoeddiad. Yr ydym wedi derbyn nifer o oheb-

iaethau yn achwyn yn dost ar yr ymosodiadau personol yn ein rhifyn diweddaf, ac hyd nes y dysgo ein gohebwyr y ffordd i ysgrifenu yn deg ac i bwrpas, bydd drws YR YMOFYNYDD yn nghau yn eu herbyn. Gobeithio y maddeua y cyfeillion sydd wedi danfon llythyron ar y pwnc hwn am beidio eu cyhoeddi. Mae yn deg i ni ac i Mr Williams gael y gair olaf ar hyn o bryd.—GOL.]

Manion a Hanesion.

PRIODASAU.

Hydref 20, 1889, yn nghapel Nonni, Llanllwni, o flaen y cofrestrydd, Mr. John Thomas, Tantmeddyg, Llanwenog, â Miss M. Francis, Bryn, Llanllwni.

Dylanwad cynhes Cupid o hyd gymhellai'r ddau,
Ond cadarn daliodd gweddwdod ei dir cyn ufuddhau,
Maent bellach yn bar dedwydd, yn deulu bach cytun,
Yn credu'r hen ddywediad fod "dau yn well nag un."

Na foed awelon gofid yn chwythu eu sarhad,
I ddeifio y serchiadau cydrhwng dwy fynwes fad,
Pob rhinwedd a phob nodded yn llon i'r ddau a ddel,
A chwpan fyddo beunydd yn llifo'n llawn o fêl.—*James Davies. Abercwm, Llanllwni.*

Tachwedd 16, yn Nghapel Gellionen, gan y Parch. J. Fisher Jones, Mr. John Hopkins a Miss Gwenny Morgans, merch henaf Mr. Henry Morgans, ysgrifenydd Eglwys Gellionen.

Ha'r hen *wag*! y rhian wen—a'th ddenodd
A'i thân i *drap* Hymen;
Ti, myn Mair, fynai'r feinwen
Ei dyn byth, a dyna ben!

Wel, awel weddol o lwyddiant—fo ichwi'n
Feichiog o bob mwyniant;
Heblaw hyn, llon'd ty o blant,
Ac yna "Dada" d'wedant.

—*Cyfaill calon.*

Crefydd yw y warant sicraf y dichon dyn gael o onestrwydd dyn.—*Montesquieu.*

Os oes prydferthwch naturiol yn perthyn i ffurfiau, mae yn sicr o fod hefyd brydferthwch gweithredoedd.

Pa beth yw Duw, nis gwn; ond pa beth nad yw, yr wyf yn gwybod.—*Socrates.*

Thales oedd y cyntaf, meddir, i ddywedyd fod eneidiau yn anfarwol.

Mae y syniad o Dduw da, perffaith, yn cau allan y syniad o Dduw dialeddol.

Fe ddywed newyddiadur Presbyteraidd nad yw Duw yn cashau neb—ddim hyd y nod y diafol. Da iawn. Ond gellid casglu yn wahanol wrth ddarllen credo y Presbyteriaid fel y mae wedi ei gosod allan yn y "Westminster Confession."

"Nid oes gen I un gredo," meddai Edison yn ddiweddar, "ond fel pob gwyddonydd, mi wn fod Duw yn bod."

Yr oedd y diweddar Dr S. H. Cox yn hoff o gwoto Lladin yn ei weddiau. Swnia yn od iawn i ni:—"O Arglwydd Iesu Grist, yr hwn wyt *ne plus ultra* ein gweddiau, *sine quâ non* ein ffydd, ac *ultima Thule* ein gobaith."

Gofynwyd yn ddiweddar i ddyn ieuanc oedd wedi bod dan arholiad am urddau yn yr Eglwys Sefydledig, sut yr oedd wedi ymdaro. "*All right*," ebe fe, "ond bum mewn cryn betrusder uwchben cwestiwn yn nghylch Emmaus; 'dall'swn I ddim 'tawn I'n marw â chofio p'un ai gwrryw neu fenyw oedd Emmaus."

Dywed y *Christian Life* fod Christmas Evans wedi dysgu darllen mewn mis. Nodir allan gymmaint anhawddach ydyw dysgu darllen y Saesneg nâ'r Gymraeg. Ac etto, sylwer mor ddiffygiol yn ei wybodaeth lenorol ydyw y Cymro cyffredin mewn cymhariaeth i'r Sais. Mae diffyg llyfrgelloedd yn Nghymru a gormod o ddiffyg chwaeth at ddarllen.

Nid yw llwybr dyledswydd bob amser yr un â llwybr dedwyddwch.

Talodd Ysgol y Llwyn ymweliad â Llanbedr ychydig amser yn ol; gweinidog Brondeifi yn holi. Ymwelodd Ysgol Cribin â'r Llwyn; gweinidog y Llwyn yn holi.

DOWLAIS.—Ymwelodd y Parch. T. Thomas, Pantydefaid, â chapel yr Undodiaid

yn y lle hwn yn ddiweddar. Yn y boreu traddododd bregeth ragorol ar y "ddafad golledig," ac yn yr hwyr traddododd bregeth feistrolgar a hyawdl ar "Thomas, yr annghredadyn." Yr oedd y cynnulliadau yn lluosog iawn, yn enwedig yn yr hwyr, ac yr oedd pawb yn ymadael wedi eu llwyr foddloni, ac yn dymuno i'r amser ddyfod oddiamgylch, fel y caffont yr anrhydedd o'i wrando yn y lle hwn ette. Cafwyd casgliadau da yn mhob oedfa.—*Gwrandawr.*

Marwgofion.

Medi 9, Mr David Evans, Llwyn Onn, Heol Fach, Ystrad Rhondda, yn 65 oed. Dyoddefodd ei gystudd hir a phoenus gydag amynedd canmoladwy. Ni fu ei weddw byw ond amser bach ar ei ol, canys bu farw Hydref 30. Yr oedd enw Mr Evans yn adnabyddus i lawer, ac yr oedd iddo barch mawr. Ysgrifenodd lawer o lythyrau doniol a darllenadwy i'r *Gweithiwr Cymreig*, yn benaf yn dal cyssylltiad ag ardal Llandyssul. Nid oedd yn Undodwr, ond yr oedd o syniadau rhyddfrydig, a dosparthodd Yr Ymofynydd am flynyddau yn ei ardal, ac yr oedd yn wastad yn un o'r rhai cyntaf i dalu am dano. Gobeithiwn y daw rhywun yn fuan i ddosparthu Yr Ymofynydd yn ei le. Ffarwel, gyfaill doniol; nid wyt ond yn unig wedi blaenu.

O un i un mae'n ceraint hoff yn blaenu,
A ninau ar eu hol awn yn y man;
A dysgwyl wnawn eu gweled yn groesawu
Oddiar y llwyfan ein neshad i'r lan.

Tachwedd 21, yn 15 mis oed, Sarah Anne, merch John ac Essy Herbert, Cloth Hall, Ram, Pencarreg. Ni chafodd y fechan ond cystudd byr, ond yr oedd i bob ymddangosiad yn lled galed. Gwasanaethwyd yn yr angladd gan R. C. Jones, a chladdwyd y corff bychan yn mynwent Brondeifi. Nerth gaffo'r rhieni i alaru'n gymmedrol.

Tachwedd 30, yn 76 oed, David Davies, Bridgend, Pentrebach, Llanbedr. Ni fu ein cyfaill hwn erioed yn briod, a llettyai yr amser diweddaf yn y lle uchod. Yr oedd yn cael ei ystyried yn ddyn hawddgar a diniwed. Gwasanaethwyd yn ei angladd gan weinidog Brondeifi, a chladdwyd yn mynwent Eglwys Llanwenog.

Rhagfyr 10, Mr David Rees, Cilgellisaf, ger Llanbedr. Credwn fod Mr Rees Rees, ei dad, yn un o'r rhai fuont yn cychwyn yr achos yn Nghapelygroes, a gwyddom mai ei fam oedd y gyntaf a gladdwyd yno, a bu Mr David Rees yn fynychwr rheolaidd yno, ac yn bleidiwr gwresog i'r achos am flynyddoedd lawer. Pan gychwynwyd yr achos newydd yn Llanbedr, bwriodd ei goelbren gyda'r brodyr a'i chwiorydd yno, a thra y gallodd, bu yn ymwelydd tra rheolaidd, er ei fod, er ys rhai blynyddoedd bellach yn dra thrwm ei glyw. Deilliai Mr Rees o hen deulu Undodaidd parchus, a bu llawer o'i berthynasau a gofal eglwysi ganddynt. Yr oedd y ddau Timothy Davis o Evesham ac Oldbury yn ewythrod iddo; y Parch Thos. Rees, Blaengwrach (bu farw 1840), yn frawd; y Parch Timothy Davis (bu farw 1770), yn gystal â'i frawd Evan Davis, athraw yn Ngholeg Caerfyrddin, yn hen berthynasau. Yr oedd y Parch John Jones, Llwynrhys (1640—1722)—un o'n gwein dogion Annghyddfurfiol cyntaf yn sir Aberteifi, yr hwn a dderbyniodd drwydded i bregethu yn 1672—yn un o'i hynafiaid. Brawd i'r John Jones hwn oedd David Jones, a drowyd allan o Eglwys Llanbadarn *Odwyn* neu Lanbadarn *Fawr* yn 1662; a mab i John Jones oedd Cadben David Jones, awdwr lluaws o lyfrau hanesyddol yn yr Iaith Saesneg. Mae y Parch R. J. Jones, Aberdar, yn nai iddo. Ganwyd Mr Rees Chwefror 2, 1811, ac yr oedd felly ychydig yn fyr o 79 oed; camsyniad oedd gosod 80 ar ei arch. Cafodd angladd luosog a pharchus, a chladdwyd yn mynwent Brondeifi. Gwelsom luaws o'r gweinidogion o wahanol enwadau yn yr angladd, ac yn eu plith Ficer Llanbedr a Ficer Pencarreg. Gwasanaethodd y Parch John Davies yn Nghilgell, R. C. Jones yn nghapel Brondeifi, a D. L Evans ar lan y bedd. Os na chamhyspyswyd ni, y mae Mr Rees wedi gadael cymmunrodd fechan at Eglwys Brondeifi.

Jenkin Howell, Argraffydd, &c., Aberdar.

"PROFWCH BOBPETH: DELIWCH YR HYN SYDD DDA."—*Paul.*

YR

YMOFYNYDD

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD—CYFROL XIII.

1889.

ABERDAR:
JENKIN HOWELL, ARGRAFFYDD, &c., 16, COMMERCIAL PLACE.
1890.

CYNNWYSIAD.

Anerchiad Yr Ymofynydd 1
At ein Hysgolion Sul yn Sir Aberteifi 166
Anthem Cynauaf 235
Aeth heibio'r blodau 276
Adolygiad y Wasg.. 283

Breuddwyd Plentyn 83
Bod ar dân gyda hi 105
Beth a fyddwn? 164
Beddargraff y ferch gelwyddog .. 189
Boreuol Emyn 207
Boddlonrwydd 271

Calaniadur Cymreig, 10, 28, 55, 77, 107, 126, 148, 172, 198, 226, 243, 270
Cymry annghofiedig 14
Cydwybod 36
Cri Plentyn 108
Crefydd 121
Cwpanaid o ddwfr oer 139
Cymdeithas Rhyddhad Crefydd oddiwrth y Wladwriaeth 156
Cariad 205
Clod 227
Cartref 255
Cost Blaenfynediad 272

Dyddlyfr Rhywun.. 134

Etholiad y Cynghorau Sirol .. 11
Er coffa sanctaidd.. 17
Englynion i'r Haf.. 149
Englynion 173
Er Cof 224
Emyniaeth Gymreig 248

Fy Ffryndiau'n Nghraig Trebannos 244

Gonestrwydd 49
Gweddi 92
Gwroldeb Nansi 136
Giordano Bruno 174
Gwroldeb Sali 176
Gweddi am drugaredd 199

Hanes Vivia Perpetua.. .. 203, 228
Hugh Latimer 211, 217

Iesu Grist 25
Iolo Morganwg on Religion .. 188

John Bright 102

Llwynrhydowen 6
Llinellau er Cof 78
Llyfrau 178
Llyfr Emynau a Thonau 233, 256, 279

Manion a Hanesion, 19, 46, 69, 94, 118, 143, 167, 190, 214, 238, 262, 286
Marwgofion, 20, 48, 71, 95, 119, 144, 168, 192, 216, 240, 262, 288
Meddyliau ar y pwnc o Fodolaeth Duw 56
Meddyliau am Iesu Grist 84

Nodynau Gwasgarog, 18, 41, 62, 87, 110, 141, 181, 207, 235, 256, 285
Nid y Beibl yn unig a ddengys Dduw 100
Nodiadau Gwleidyddol 163
Nodiadau ar Lyfr yr Actau.. .. 277

Pregeth .. 3, 114, 145, 169, 193, 265

Salm xix. 125
Savonarola 128, 150

Tangnefedd 36

Un pren ar y tro 38
Urddasolrwydd dyn 81

Wyth Pennill i'r diweddar Mr. Evan Evans, Six Bells 29

Ymweliad â Chapeli Cymreig .. 7, 29
Y Cyfarfodydd Chwarterol 38, 138, 253
Yr Ysgol Sabbothol 41
Y Cynghor Sirol 46
Yn mha beth y mae llawenydd y Cristion yn gynnwysedig.. .. 53
Ymadael â'r babi 60
Y ddwy fil 73, 97
Y Pader mewn cynghanedd unodl 133
Yn cael ei adnabod wrth ei het.. 159
Y Puritaniaid.. 161
Y cadnaw 162
Y meddyliau goreu mewn byr eiriau 186, 201, 230, 246
Y tri ugain mlynedd diweddaf .. 190
Y Parch. Thomas Morgan, Henllan 200, 223
Yr Heretic sydd o help 241
Y crwydryn 250

Barn y Cyhoedd am George's Pills.

DYFYNIADAU O LYTHYRAU.

"Gwerthfawrocach ynt i mi nâ'r aur coeth,—arbedasant fy mywyd."

"Yr oedd pob meddyg yn ystyried fy iechyd yn ddiobaith, felly Syr, ar ol i bawb fethu, chwi a'm gwnaethoch yn holl iach."

"Clywais ganmoliaeth uchel i'ch Peleni, ond fy marn ddiduedd yw, na fynegwyd 'mo'r hanner."

"Cyn cymmeryd eich Pills nis gallwn gerdded gan y poen yn fy ymysgaroedd, ond yn awr, er fy mod yn 67 mlwydd oed, yr wyf yn teimlo fel pe na bawn ond 30."

"Yr ydwyf yn canmol eich Peleni wrth fy holl gwsmeriaid, oblegyd y maent yn wir dda."

"Ni welwyd meddyginiaeth fel yr eiddoch chwi erioed o'r blaen yn ein gwlad."

"Cynghorem bawb—o herwydd y ffug-beleni sydd yn y farchnad—i fod ar eu gwyliadwraeth pan yn prynu GEORGE'S PILLS."

"Yr oeddwn yn methu sefyll gan bendro, ac yr oedd *swashes* o ddwfr sur yn dyfod i fy ngenau. Ni chymmerais ond un blychaid o'ch Peleni cyn fy llwyr iachau."

"Yr oedd trymder anarferol yn fy nal ar ol bwyta, a chawn anesmwythder y nos gan freuddwydion brawychus; ac mae fy mhoenau erbyn hyn yn *things of the past*."

"Er i mi wneyd aml brofion o alluoedd meddygon, yr oedd y cwbl yn ofer hyd i mi wneyd prawf o'ch Peleni chwi."

"Yr ydwyf yn dymuno gwneyd y gwellhad hwn yn ysbys er calondid i chwi, er lles i ereill, ac er clod i'r Goruchaf."

"Y mae llawer o siarad yma (California) am eich Peleni; mawr y lles y maent yn ei wneyd."

"Edrychwn ar eich Peleni fel rhai o'r pethau hyny ag ydynt yn angenrheidiol i gyssur a dedwyddwch teuluaidd."

"Nis gwn am un Feddyginiaeth yn Nghymru mewn cymmaint o fri, nac ychwaith wedi gwneyd cymmaint o ddaioni."

"Edrychir arnoch gan filoedd fel cymmwynaswr i'ch cenedl."

"Mae'n Feddyginiaeth rad, ryfeddol ei pharhad, effeithiol, syml, hawdd ei chael trwy holl ororau'n gwlad."

"Y mae yr Americaniaid yn meddwl y byd am eich meddyginiaeth, er gwaethaf eu rhagfarn yn erbyn pob peth Cymreig."

"After taking a few doses he passed no less than forty gall-stones."

"When I show them the *scores of stones* I have passed by taking your Pills, they are *struck dumb with wonder*. Seeing is believing."

"Your Pills a tonish the people here by their miraculous effects."

"Dyma un o'r bendithion mwyaf i ni, y dosparth gweithiol, a allasai Rhagluniaeth ei drefnu."

Ar werth drwy yr holl fyd, mewn blychau 1*s.* 1½*c. a* 2*s.* 9*c. yr un.*

Perchenog :—J. E. GEORGE, M.R.P.S., HIRWAIN.

Gelynion Gwaethaf y Ddynoliaeth wedi eu gorchfygu!

Dyfyniadau o LYTHYR IV. *yr enwog Ddr. Pan Jones a ymddangosodd yn "Tarian yGweithiwr" a'r "Celt" am Rhag. 9, 1886.*

GELWAIS yn masnachdy Mr. George, Hirwaun, yn ddiweddar. Y mae Mr. George wedi bod yn fyfyriwr diwyd yn ysgol fawr anian, ac wedi llwyddo i ddarganfod meddyginiaeth effeithiol rhag dau o'r anhwylderau mwyaf beichus yn hanes y teulu dynol sef y PILES A'R GRAVEL.

Bu y ddau glefyd hyn drwy yr oesoedd fel yn chwerthin am ben pob meddyginiaeth. Y mae y cyntaf yn adnabyddus. er dyddiau cwymp Dagon. Bu agos [illegible]fyd hwn ysgubo ymaith holl breswylwyr pump o ddinasoedd y Philiistiaid mewn un dydd am iddynt gymmeryd Arch Duw o Ebenezer i Asdod. Y mae y GRAVEL drachefn wedi bod yn angeu i filoedd, ac nid oes ond ychydig yn cael myned drwy y byd heb deimlo i ryw raddau oddiwrtho. Dyma y clefyd fu yn ngeu i Napoleon III.

Yr oeddem wedi darllen lluoedd o dystiolaethau argraffedig, ac wedi clywed gan gyfeillion personol a chydnabyddion lawer am ddaioni y Pills; a gwn am luoedd yn y wlad hon ac yn America, rhai yn Damascus, yn Rhufain, yn Beyrout, llu mawr yn Paris a thrwy Germany, yn eu cadw yn wastad wrth law, fel TARIANAU rhag ymosodiadau y clefydon rhag-grybwylledig.

Yr oeddem wedi gweled tystiolaeth yr Ynad Williams i ddilysrwydd y tystiolaethau sydd yn cael eu cyhoeddi, a llu ereill na chyhoeddwyd etto. Wedi myned i Hirwaun a chael *interview* â Mr. George, prin y buasai yn deg i mi ymadael heb gael golwg ar y tystiolaethau. Wedi darfod y cysgod-esgus oedd genyf, cyfeiriais at y Pills, ac awgrymais "y gallai fod rhai yn amheu dilysrwydd y tystiolaethau;" wrth reswm, nid oeddwn I fy hunan yn un o'r cyfryw, fel pe tae. Heb ddweyd gair, taflodd o'm blaen glamp o lyfr mawr ar ffurf *scrap album*, a gofynodd i mi edrych a barnu drosof fy hun.

Yr oedd yno lythyrau yn mhob math o law-ysgrif,—o lun traed brain i'r German Text. Llythyrau o bob gwlad,—o China a'r Iwerddon, o San Francisco a Bagillt, o New Zealand a Dolyddelen, o Brestatyn ac Awstralia, o Liverpwl a Gibraltar, o Ysgotland a Llanrwst, o Lundain a Llanbabo, o Lanandras a Solva, o Carlisle ac Eglwyswrw, o Lanelwy a Llanbedr, o Benrhyndeudraeth a Phenrhyn-Gobaith-Da, o Cairo a Cheinewydd, o Gaercystenyn a Chaerfyrddin, o Rufain, Paris, a Naples.

Y mae meddyginiaeth Mr. George o flaen y wlad er ys dros 20 mlynedd' ac y mae eu cymmeriad wedi myned *mor eang â gwareiddiad*, canys bydd ymfudwyr, cenadon, a morwyr yn eu cymmeryd gyda hwynt i bob lle. Dywedwyd i mi gan rifyddwr o fri—pe byddai dyn yn myned ar daith o gylch y ddaear a gollwng *pill* ar ben pob llathen, y byddai raid iddo fyned fwy nag unwaith o gylch y ddaear cyn cael lle i'r *Pills* y mae Mr. George [illegible]i eu troi allan o'i *laboratory* mewn ngain mlyned[illegible]

Y mae y Feddyginiaeth werthfawr hon i'w chael mewn tair ffurf:—

No. 1.—George's Pile and Gravel Pills (Label wen).

No. 2.—George's Gravel Pills (Label las).

No. 3.—George's Pills for the Piles (Label goch).

Ar werth drwy yr holl fyd mewn blychau 1s. 1½c. a 2s. 9c. yr un; drwy y post 1s. 3c. a 3s. yr un. ☞Family Boxes, yn cynnwys un blychaid o No. 1, un o No. 2, ac un o'r No. 3 Pills, 2s. 9c. yr un. Drwy y post, 3s. Arbedir llawer wrth brynu y blychau mwyaf. Perchenog:—

J. E. George, M.R.P.S., Hirwain, Glam.